# Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol Powys

## YR HYN A WNAETHOM

Ein nod cyntaf oedd codi ymwybyddiaeth o fentrau cynaliadwyedd o fewn lleoliad Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol. Er nad ydym yn gweithredu fel practis deintyddol stryd fawr nodweddiadol, roeddem yn credu y gallem barhau i gyfrannu'n sylweddol at y Cynllun. Roeddem hefyd yn cydnabod bod llawer ohonom eisoes yn cymryd camau i fod yn fwy ecogyfeillgar yn ein bywydau personol, ac roeddem am alinio ein harferion gweithle â'r gwerthoedd hyn. Fel newydd-ddyfodiaid i'r Cynllun, fe wnaethom benderfynu dechrau gyda chamau bach, cyraeddadwy a fyddai, gyda'i gilydd, yn arwain at effaith ystyrlon.

Rhoddwyd dolen uniongyrchol i'r Cynllun i bob aelod o'r tîm, gan eu galluogi i'w archwilio'n annibynnol. Yna fe wnaethom ddatblygu rhestr gynhwysfawr o'n harferion cynaliadwy presennol a nodi meysydd i'w gwella dros y flwyddyn i ddod. Drwy gydol y broses, fe wnaethom ddefnyddio e-byst a phosteri i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n tîm a'n cleifion, a chodi ymwybyddiaeth o'n hymdrechion cynaliadwyedd ymhellach.

Dwy fenter allweddol a weithredwyd gennym oedd ysgrifennu Cynllun Parhad Busnes a Chynllun Cynaliadwyedd Amgylcheddol Gwyrdd. Darparodd y fframwaith ar-lein adnoddau a chanllawiau defnyddiol i'n cynorthwyo i ddatblygu'r dogfennau hyn.

## YR HYN YR YDYM FWYAF BALCH OHONO

Yn 2024 roeddem wrth ein bodd yn ennill gwobr aur Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru ar ôl cyflawni 30 o gamau gweithredu ar y fframwaith. Un o'r camau gweithredu a gyfrannodd at y wobr oedd sicrhau bod ein mannau awyr agored yn 'gyfeillgar i wenyn'. Defnyddiwyd arwyddion lliwgar yn ein mannau gwyrdd i rybuddio staff a chleifion ein bod yn gadael yr ardaloedd hyn heb eu haflonyddu er mwyn gadael i natur ddilyn ei chwrs.




GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Addysgu Powys / Powys Teaching Health Board

**DERBYNODD GWASANAETH DEINTYDDOL CYMUNEDOL POWYS WOBR AUR GOFAL SYLFAENOL GWYRDDACH CYMRU YN 2024**



**I GAEL RHAGOR O WYBODAETH, EWCH I:**
https://biap.gig.cymru/gwasanaethau/gwasanaethau-cymunedol-oedolion-a-phobl-hyn/gwasanaethau-deintyddol-cymunedol/

# Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol Powys

## PA WAHANIAETH WNAETH HWN?

**Amgylcheddol**
O safbwynt amgylcheddol, rydym wedi newid i wasanaeth di-bapur ar gyfer nodiadau atgoffa am apwyntiadau a ffurflenni hanes meddygol trwy ddefnyddio meddalwedd yn y cwmwl. Mae hyn wedi lleihau ein dibyniaeth ar adnoddau ffisegol ac amser gweinyddol yn sylweddol, yn ogystal â lleihau gwastraff papur, inc a batris.

**Ariannol**
Yn ariannol, rydym yn gobeithio arbed arian yn yr hirdymor trwy leihau anghenion argraffu, annog y tîm i weithio o'r canolfannau yn agosach at adref, hyrwyddo rhannu ceir, a dewis cyfarfodydd ar-lein pryd bynnag y bo modd.

**Clinigol**
Yn glinigol, trwy annog staff i gwblhau hyfforddiant MECC, mae ymgynghoriadau cleifion wedi bod yn fwy cynhyrchiol, sydd wedi gwella ansawdd cyffredinol y gwasanaeth.

**Cymdeithasol**
Penderfynon ni flaenoriaethu mentrau a allai wella iechyd a llesiant ein tîm a'n cleifion. Mae'r Cynllun hefyd wedi profi i fod yn ymarfer adeiladu tîm effeithiol, gan gryfhau cydweithio ar draws y gwasanaeth.

Gwnaethom yn siŵr ein bod yn ystyried barn pawb mewn ffordd anfeirniadol. Roedd angen cyfathrebu gofalus a hyblygrwydd er mwyn cynnal momentwm wrth sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed.

## BETH NESAF?

Dros y 12 mis nesaf rydym yn bwriadu cyflwyno system archebu ddigidol newydd i symleiddio rheoli stoc, lleihau'r defnydd o bapur, a lleihau gwallau.

Ochr yn ochr â hyn, rydym yn gweithio tuag at symud ein gwiriadau llawdriniaeth dyddiol i blatfform digidol. Bydd hyn yn lleihau’r papur a ddefnyddir ac amser gweinyddol ac yn darparu ffordd fwy effeithlon, cywir a chynaliadwy o fonitro gwiriadau hanfodol.

*“Mae’r cynllun wedi ein helpu i weithio gyda’n gilydd gyda phwrpas cyffredin. Mae'n werth chweil gweld sut mae gwelliannau amgylcheddol hefyd yn creu gweithle gwell a mwy effeithlon”*

## AWGRYMIADAU GWYCH

- Dechrau gyda strategaethau cyflym, hawdd eu gweithredu sy'n sicrhau enillion cynnar
- Ymgysylltu â chymaint o aelodau’r tîm â phosibl er mwyn annog cyfranogiad a rhannu cyfrifoldeb

**MANYLION CYSWLLT**
Rhian Lewis a Heidi Thomas



Rhian.lewis15@wales.nhs.uk

Uwch Swyddog Deintyddol

Heidi.thomas@wales.nhs.uk

Cyfarwyddwr Deintyddol Clinigol Cynorthwyol